# Arolygiad o dan Adran 28
# Deddf Addysg 2005

## Adroddiad ar Ansawdd Addysg yn

**Ysgol Crud Y Werin**
**Aberdaron**
**PWLLHELI**
**Gwynedd**
**LL53 8BP**

**Rhif yr Ysgol: 6612039**

**Dyddiad yr Arolygiad: 20 Mai 2008**

**gan**

**Len Jones**

**16360**

**Dyddiad Cyhoeddi: 23 Gorffennaf 2008**

**O dan rif contract Estyn: 1117207**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?**

**Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig**

93. Cyfoethogir profiadau disgyblion gan weithgareddau allgyrsiol, diwylliannol a chymunedol a drefnir, megis ffeiriau, cyngherddau, a nifer dda o ymweliadau, megis i'r Gadeirlan ym Mangor, Pentref Peryglon, Porth Dinllaen a Bodwrdda. Mae disgyblion yn cyfrannu mewn achlysuron cymunedol a chroesewir ymwelwyr o'r gymuned, megis garddwraig, gŵr busnes lleol a'r gweinidog, i ymweld â'r ysgol. Manteisir hefyd, ar arbenigedd swyddog addysg yr archifdy, ac ar ymweliad gan awdures i drafod ei gwaith. Mae disgyblion cyfnod allweddol 2 wedi elwa'n fawr o glwb cyfrifiaduron allgyrsiol, sydd wedi codi safon y pwnc yn y dosbarth.

94 Mae'r profiadau dysgu yn hyrwyddo datblygiad moesol, ysbrydol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn dda. Cyfrannant at elusennau cenedlaethol ac mae'r awydd i gyfrannu at achosion haeddiannol o fewn y gymuned, megis y bad achub, yn agos at eu calon. Llwyddir i wireddu amcanion clir yr ysgol i hybu datblygiad moesol y disgyblion ac mae ethos yr ysgol ac ymddygiad a gwerthoedd y disgyblion yn tystio i hyn. Amlygir eu haeddfedrwydd wrth baratoi sesiynau addoli ar y cyd wythnosol. Mae'r cyfnodau o addoli ar y cyd yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol y disgyblion yn effeithiol. Dangosant hyder wrth groesawu henoed y gymdeithas i'r ysgol ac mae eu datblygiad diwylliannol yn datblygu ymhellach wrth iddynt gyfathrebu drwy e-bost â rhan arall o'r byd. Mae'r cysylltiadau a'r profiadau yn cyfoethogi eu datblygiad personol ac yn eu paratoi i fod yn aelodau cyfrifol o'u cymuned.